



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cynllun Cysylltu Bywydau

**Cyngor Gwynedd
Swyddfa Ardal Dwyfor
Ffordd y Cob
Pwllheli
LL53 5AA**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

16, 22 Mehefin a 7 Gorffennaf 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid ichi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chynllun Cysylltu Bywydau

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth lleoli oedolion
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma oedd yr arolygiad cyntaf ar ôl i'r gwasanaeth gofrestru â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r cynllun ynparu pobl sydd angen cymorth ag anghenion corfforol, iechyd meddwl, emosiynol a chymdeithasol gyda galluogwyr i fyw gyda nhw yn y gymuned. Mae'r bobl a'r galluogwyr yn ffurfio uned debyg i deulu sy'n byw mewn tŷ sy'n gartref iddynt. Cefnogir y bobl i fod yn aelodau o'u cymuned leol ac i fyw bywyd mor llawn ac annibynnol â phosibl. Mae gan y bobl fynediad at apwyntiadau gofal iechyd yn ôl yr angen. Mae'r bobl yn cael eu galluogi i gadw mewn cysylltiad â phobl sy'n bwysig iddynt ac i wneud ffrindiau. Mae gan y bobl ddiddordebau gweithredol fel garddio ac maent yn cael eu cefnogi i gael swyddi yn ôl eu gallu. Mae'r bobl a'r galluogwyr yn mynd ar wyliau neu'n gallu cael gofal seibiant fel sy'n briodol i anghenion unigol pob person. Mae'r bobl a'r galluogwyr yn cael cyfle i gwrdd â galluogwyr a phobl eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth mewn cyd-destun cymdeithasol. Mae'r galluogwyr yn destun proses ddethol gadarn ac yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth gan y gwasanaeth i'w helpu yn eu rôl.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn cefnogi'r rheolwr yn ei rôl dros y ffôn neu drwy dechnoleg gwybodaeth. Mae bellach yn amser i'r unigolyn cyfrifol gynnal adolygiad ansawdd o'r gwasanaeth, wyneb yn wyneb.

Mae'r bobl sy'n defnyddio'r cynllun yn teimlo bod ganddynt reolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd. Ymgynghorir â'r bobl ynghylch eu nodau, eu huchelgeisiau a'u diddordebau ac wrth gynllunio eu bywydau beunyddiol. Lle bo modd, mae'r bobl yn siarad drostynt eu hunain a gallant ddylanwadu ar y cymorth a roddir iddynt a pha waith papur a gedwir amdanynt. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo "*yn ddiogel*" ac yn "*rhan o deulu*". Canmolodd y bobl y cynllun, y ffordd y caiff ei reoli, ac yn enwedig eu galluogwyr am eu cefnogi'n sensitif ac am feithrin eu hunandibyniaeth a'u hunanhyder.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod mor iach â phosibl ac i gael ymdeimlad o lesiant yn eu bywydau. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n iach ac yn hapus. Gwelsom fod pobl mor egniol ag y gallant fod, yn mynychu digwyddiadau cymdeithasol a swyddi yn ôl eu gallu. Gwelsom fod gan y bobl ddiddordebau a hobiau fel garddio a theithio. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt ffrindiau yn lleol ac y gallent gysylltu â theulu a ffrindiau fel y dymument. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fynychu apwyntiadau meddyg teulu a gofal iechyd i gynnal eu hiechyd. Gall y bobl gael mynediad at frechiadau COVID-19 os ydynt yn dewis eu cael a chânt eu cefnogi i ddilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r galluogwyr yn destun proses ddethol gadarn. Mae gwiriadau cyflogaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn gyfredol. Mae'r galluogwyr yn cael hyfforddiant a goruchwyliaeth barhaus i'w helpu yn eu rôl bob dydd. Dywedodd y galluogwyr wrthym eu bod yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu ac y byddent yn gallu eu defnyddio pe bai angen.

Gofal a Chymorth

Ystyrir barn y bobl am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae'r bobl yn cydweithio â'u galluogwyr i weithio ar nodau a chanlyniadau dymunol. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu hannog i gynnal diddordebau a hobiau ac i gael swyddi fel y bo modd, i gynllunio gwyliau ac i gwrdd â ffrindiau a phobl eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom fod cynlluniau personol yn cael eu hysgrifennu yn unol ag anghenion a dyheadau pob unigolyn. Mae'r cynlluniau personol yn adlewyrchu cynnydd pob person tuag at y canlyniadau a ddewiswyd ac yn darparu tystiolaeth o hyn. Gall y bobl ddylanwadu ar yr hyn sy'n cael ei ysgrifennu amdanynt a chael llais yn eu bywydau bob dydd.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod yn iach. Gwelsom fod un person wedi cael cymorth i fynd i apwyntiad meddyg teulu gan ei fod yn teimlo'n sâl. Gwelsom o gynlluniau personol fod pobl yn cael mynediad at gyngor gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ôl yr angen ac mewn ffordd amserol. Mae'r bobl wedi cael cymorth i aros mor iach â phosibl drwy gydol pandemig COVID-19 ac mae galluogwyr wedi dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gofynnwyd i ni am ein statws COVID-19 cyn cael mynediad i'r tŷ yr ymwelwyd ag ef. Gwelsom dystiolaeth o'r bobl yn cael mynediad at ofal seibiant a gofal wedi'i deilwra ar gyfer anghenion arbenigol mewn cynlluniau personol ac o sgysiau â galluogwyr a rheolwr y gwasanaeth.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae rheolwr y gwasanaeth yn ymweld â thai yn rheolaidd i roi cymorth i'r bobl a'r galluogwyr ac mae'n sicrhau bod canlyniadau'n cael eu bodloni. Dywedodd y galluogwyr y gwnaethom siarad â nhw fod modd cysylltu â'r rheolwr dros y ffôn hefyd a'i fod yn gefnogol. Mae'r gwasanaeth yn adrodd am unrhyw ddigwyddiadau i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac awdurdodau lleol mewn modd priodol ac amserol.

Yr Amgylchedd

Nid ydym yn adrodd ar thema'r amgylchedd yng nghartrefi preifat pobl.

Fodd bynnag, mae gan y galluogwyr yswiriant cartref cyfredol ar ffeil ac asesiadau risg tân cyfredol.

Mae swyddfydd y gwasanaeth yn destun asesiadau risg Awdurdod Lleol Gwynedd ar gyfer protocolau iechyd a diogelwch a diogelwch tân.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y gwasanaeth drefniadau llywodraethu ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n llyfn. Dywedodd y rheolwr ei bod yn cael ei chefnogi'n dda gan yr unigolyn cyfrifol dros y ffôn a drwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth. Fodd bynnag, mae'n bryd i'r unigolyn cyfrifol gyflwyno ei adroddiad ansawdd ac ymweld yn bersonol â'r gwasanaeth, i siarad â'r staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y bobl yn derbyn gofal o ansawdd uchel ac yn cael eu galluogi i gyflawni'r canlyniadau y maent wedi'u dewis.

Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau dethol cadarn ar gyfer dewis galluogwyr. Mae gwiriadau cyn cyflogaeth ar waith i sicrhau bod galluogwyr yn addas ac yn briodol i weithio gydag oedolion agored i niwed. Rhoddir hyfforddiant a goruchwyliaeth aml i alluogwyr i'w helpu yn eu gwaith. Mae'r rheolwr yn ymweld â'r bobl a'r galluogwyr yn rheolaidd i sicrhau bod y cynllun yn rhedeg yn esmwyth ac i ddarparu cymorth, yn ôl yr angen.

Mae'r datganiad o ddiben ar gael i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae hyn yn egluro'r gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl yn y cynllun, y strwythur rheoli a manylion cyswllt personél allweddol. Mae'r ddogfen hefyd yn egluro sut y gall y bobl leisio cwyn os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 23/08/2022